



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaeth Gofal Cartref Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Cyngor Sir Caerfyrddin  
3 Stryd Spilman  
Caerfyrddin  
SA31 1LE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

29/11/2023

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

# Gwasanaeth Gofal Cartref Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	23/03/2022
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth.

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel a ddarperir gan reolwyr ymroddedig, yr Unigolyn Cyfrifol a'r timau o staff. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth. Maent yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn effeithiol drwy ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau archwilio ansawdd, datblygiadau arloesol ac ymweliadau Rheoliad 73.

Mae anghenion gofal a chymorth unigol y bobl yn ganolbwynt i'r rhai hynny sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn siarad mewn ffordd gynnes a gwybodus am yr unigolion y maent yn eu cefnogi. Mae'r cofnodion gofal a chymorth yn fanwl iawn ac roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion y gwnaethom eu darllen yn rhoi ymdeimlad go iawn o'r person, ei ofynion gofal presennol a'r hyn sy'n bwysig iddo. Mae gan y bobl a'u teuluoedd feddwl uchel iawn o'r gwasanaeth.

## Llesiant

Caiff anghenion gofal y bobl eu diwallu a chaiff eu dewisiadau a'u safbwyntiau eu cydnabod. Mae'r cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth fanwl am anghenion a dewisiadau'r bobl ac ar y cyfan yn rhoi ymdeimlad go iawn o'r unigolyn. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn ffordd ragweithiol â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gofyn am farn y bobl a'u cynrychiolwyr yn ystod ei ymweliadau ac fel rhan o'r adolygiad o Ansawdd y Gofal. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cyfrannu'n weithredol at y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Mae'r bobl yn codi pryderon am y gwasanaeth pan fydd angen iddynt wneud hynny ac yn teimlo y cânt eu hystyried. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, a gall y bobl gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg fel y mynnant.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl rhag niwed. Mae'r gweithdrefnau recriwtio a dethol yn gadarn. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwyllo rheolaidd, arfarniad blynyddol a hyfforddiant a chymorth parhaus sy'n sicrhau bod y rhai hynny sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn meddu ar y sgiliau cywir a'u bod yn rhoi gofal mewn ffordd briodol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r gweithwyr gofal. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o ansawdd uchel i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl ac maent yn frwdfrydig am ddarparu'r gofal gorau posibl. Dywedodd y staff wrthym *"I want my clients to have a smile on their face because they are happy with the care I provide"* ac *"I take great pride in my work, I want the best for the people I care for"*. Mae'r cynlluniau gofal a chymorth yn fanwl iawn ac roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion y gwnaethom eu darllen yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn rhoi ymdeimlad go iawn o'r person, ei anghenion gofal presennol a'r hyn sy'n bwysig iddo. Caiff y cynlluniau gofal a'r asesiadau risg cysylltiedig eu hadolygu'n rheolaidd Mae'r bobl a / neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal, a chedwir cofnodion clir o hyn. Caiff system cofnodion gofal electronig ei defnyddio sy'n sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael yn hwylus i'r gweithwyr gofal i'w cefnogi yn eu rôl. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Gofal Canolraddol Amlddisgyblaethol, sy'n golygu ei bod yn hawdd cysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae'r dull gweithredu integredig hwn yn canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn sicrhau y caiff y canlyniadau gorau posibl eu cyflawni.

Mae'r gwasanaeth yn anelu at sicrhau parhad gofal i'r bobl. Er y bu rhai anawsterau wrth recriwtio gweithwyr gofal, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y bobl yn cael eu gofal a'u cymorth ar yr adeg briodol, a hynny gan weithwyr gofal sy'n gyfarwydd iddynt. Mae tîm cymorth gwasanaeth yn gweithio i sicrhau bod y bobl yn cael eu galwadau gofal ar amser. Gall aelodau'r tîm ymdrin ag absenoldebau staff ac unrhyw broblemau o ran darparu'r gwasanaeth a rheoli'r materion hynny, a rhoi gwybod i'r bobl am unrhyw achosion o oedi neu newidiadau i'r gofal a gynlluniwyd ar eu cyfer. Dywedodd y bobl wrthym *"the carers are very rarely late but if they are going to be I get a call from the office"*, *"I have regular carers so I get to know them well,"* a *"there have been some changes to the carers, but in the main they stay the same ones. Every one of them are good"*.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn canmol y gweithwyr gofal a'r gofal a ddarperir ganddynt yn fawr. Dywedwyd wrthym *"the carers are a great help, I don't know what I would do without them, they are kind and company for me, I have a chat with them all"*, *"the carers are all lovely and kind"* a *"the carers are 'spot on', they visit my gran four times a day, they are fantastic, she couldn't be cared for better which is great to know and see"*.

Gall y bobl a'u perthnasau godi pryderon am y gwasanaeth os bydd angen iddynt wneud hynny. Dywedwyd wrthym *"I have no concerns at this time, but I have the office number if I have any concerns"*, *I have just complained about a carer being late one evening. I know this is being looked in to and I have confidence it will be addressed"*, *"I would speak to one of the seniors if I had a concern"*, ac *"I have the contact numbers including out of hours number if I have any concerns"*. Caiff Gweithdrefn Gwyno'r sefydliad ei rhoi i bob un sy'n derbyn y gwasanaeth.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau Rheoliad 73 â'r gwasanaeth yn unol â'r amserlenni gofynnol. Mae AGC wedi cael copïau o adroddiadau sy'n dangos ei bod yn siarad â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff fel rhan o'i hymweliadau â'r gwasanaeth. Cadarnhawyd hyn gan y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth a chan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r rheolwyr yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau hyn eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis yn defnyddio'r adborth gan y bobl sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth a'u cynrychiolwyr, yn ogystal â gwybodaeth o archwiliadau mewnol, i lywio'r adroddiad.

Mae'r Rheolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol, ac maent yn gweithredu fel uwch-dîm cadarn sydd â gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth a sut y dylid ei oruchwylio. Mae llesiant y gweithwyr gofal yn bwysig i'r tîm rheoli, sy'n gwerthfawrogi gwaith caled ac ymroddiad y timau staff yn fawr. Mae'r staff gofal yn canmol arweinwyr a rheolwyr y gwasanaeth yn fawr. Dywedwyd wrthym *“this is a great job and place to work”*. *“[manager] is very supportive and provides sound advice”, “[manager & supervisor] are both excellent, I can speak to them whenever I need to,” [RI] is very approachable and supportive”*.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael cyfnod sefydlu manwl, sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad blynyddol. Cadarnhawyd hyn wrth i ni siarad â'r staff a darllen eu cofnodion personél. Mae'r staff yn mynychu amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol ac arbenigol i'w galluogi i gefnogi ac amddiffyn pobl sydd weithiau'n byw ag anghenion cymhleth. Dywedodd y staff wrthym am y gwahanol fathau o hyfforddiant y maent wedi'u cwblhau a manteision hynny i'w rôl ac i'r bobl sy'n cael cymorth ganddynt. Nododd adborth gan y staff nad ydynt yn cael hyfforddiant Cymorth Cyntaf sylfaenol. Cadarnhawyd hyn gan fatrics hyfforddiant y gwasanaeth a thrafodaethau â'r rheolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol. Ers codi'r diffyg hwn, rydym wedi cael gwybod bod hyfforddiant Cymorth Cyntaf wedi cael ei drefnu i bob aelod o'r staff ac y caiff ei ddarparu o ddechrau 2024.

Mae'r cofnodion recriwtio yn cynnwys y wybodaeth a'r gwiriadau gofynnol. Er y bu rhai anawsterau wrth recriwtio gweithwyr gofal, mae'r gwasanaeth yn cynnig cymhellion i gyflogeion er mwyn helpu i ddenu a chadw staff. Caiff shifftiau a dewisiadau gweithio eu hystyried er mwyn helpu i hyrwyddo cydbwysedd bywyd / gwaith cadarnhaol ac roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw o'r farn fod hyn o fudd mawr. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym *“it was a very good decision to join the team. I work four shifts on and four shifts off which gives me a good work/life balance”*.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'i Ddatganiad o Ddiben a chaiff hysbysiadau ar-lein eu cyflwyno i AGC yn unol â'r gofynion.

### Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G



## **A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 14/02/2024**